Nyth Gwalch y Pysgod

(parchu bywyd / pawb â'i rôl / gwerth yr unigolyn)

Bob pnawn ar ôl dod adref o'r ysgol byddai Gari'n taflu ei ddillad ysgol ac yn gwisgo ei ffefrynnau – jîns, crys-T a sgidiau trymion – a ffwrdd â fo i'r mynydd-dir o gwmpas ei gartref. A dyna lle y byddai'n ymlacio'n braf. Dim siw na miw yn unman – yn sicr dim sŵn plant ac athrawon. Roedd Gari'n casáu'r ysgol. Roedd o'n casáu'r plant a'r athrawon fel ei gilydd. Yn ystod amser egwyl doedd yna ddim byd i'w wneud. Cicio pêl oedd y rhan fwyaf o'r bechgyn ond doedd ganddo fo ddim diddordeb mewn pêl-droed na chwaraeon. Yn y gwersi wedyn roedd popeth yn troi o gwmpas technoleg gwybodaeth a dysgu ffeithiau, a phopeth diflas arall. A byddai'r athrawon byth a hefyd yn sôn am 'flwyddyn bwysig' o'ch blaenau ac mae canlyniadau arholiadau yn hollbwysig i gael swydd – chewch chi ddim swydd gwerth chweil heb raddau da.

Ond allan ar y mynydd-dir roedd Gari'n gallu anghofio'r cyfan – yn enwedig pan fyddai'n cerdded o amgylch y llyn. Roedd y llyn yn newid o ddiwrnod i ddiwrnod. Un diwrnod byddai'n frochus a thonnau'n ewyn ar y lan, dro arall byddai'n llyfn a dim symudiad yn unman, dim ond ambell bysgodyn yn neidio allan o'r dŵr.

Diwedd Ebrill oedd yr amser gorau i fynd am dro o gwmpas y llyn. Ffrwydrai'r gwanwyn ymhob twll a chornel – y coed, y blodau, yr anifeiliaid a'r adar mudol. Adar y gwledydd poeth yn dod i dreulio'r haf yn ein gwlad ni. Bob blwyddyn byddai Gari'n cadw manylion am ddyfodiad adar fel y gwenoliaid a'r gwcw. Ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma roeddent yn cyrraedd yn gynharach ac yn gynharach.

Un gyda'r nos gwelodd Gari aderyn dieithr yn hedfan o gwmpas y llyn. Roedd yr un maint â bwncath ond roedd yn sicr nad bwncath oedd yr aderyn. Gwyliodd yr aderyn yn hedfan yn hamddenol o gwmpas y llyn ac, yn sydyn, dyma fo'n plymio i'r dŵr ac yn codi gyda physgodyn yn ei grafangau. Bu Gari'n ei wylio yn bwyta'r pysgodyn ar gangen uwch ei ben. Pa aderyn oedd hwn tybed?

Doedd o erioed wedi gweld aderyn tebyg i hwn o'r blaen. Aderyn oedd yn debyg i aderyn ysglyfaethus yn bwyta pysgod! Doedd dim amdani ond chwilio yn ei lyfr adar. Trodd y tudalennau'n ofalus. Tybed ai gwalch y pysgod oedd hwn? Ysai

am gael mynd adref o'r ysgol. Rhuthrodd i gyfeiriad y llyn. Roedd dau yno'r ail noson.

Tybed ai pâr oedd yna? Ond yn ôl y llyfr doedd y rhain ddim yn nythu yng Nghymru, dim ond yn yr Alban. Ddywedodd o ddim gair wrth neb. Bob nos ar ôl ysgol byddai'n dychwelyd i lan y llyn. Erbyn diwedd yr wythnos roedd yn amlwg eu bod yn dechrau nythu ar ben y goeden bin. Am ddyddiau bu Gari'n pendroni a ddylai ddweud wrth rywun arall am yr hyn oedd yn digwydd ar lan y llyn? Doedd neb yn yr ysgol â diddordeb o gwbl – dim ond cwricwlwm a 'gwneud yn dda yn yr arholiadau' oedd yn mynd â bryd yr athrawon a'r plant. Oedd yna rywun oedd yn mynd i wrando ar Gari?

Mis yn ddiweddarach cyhoeddodd y pennaeth yn y neuadd, "Rydan ni newydd glywed bod pâr o weilch y pysgod yn nythu o gwmpas llyn y Graig ac mae gwarchodwyr adar yn gwylio'r man ddydd a nos. Newydd ddarganfod hyn rai dyddiau'n ôl maen nhw."

Ddywedodd Gari 'run gair wrth neb. Pwy, wedi'r cwbl, fyddai'n gwrando ar ei stori?

Adnod: "Eiddo'r Arglwydd yw'r ddaear a'i llawnder, y byd a'r rhai sy'n byw ynddo." Salm 24:1

Gweddi: Helpa fi, o Dduw, i ddotio at y pethau sydd o'm cwmpas, ac i werthfawrogi prydferthwch byd natur. Amen.

Trafod:

- Oes yna ormod o bwyslais yn cael ei roi yn ein hysgolion ar basio arholiadau?
- Pam na ddywedodd Gari 'run gair wrth ei athrawon na'i ffrindiau?